

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain Ionawr 2019

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, John D Jones, Prys Ellis, Guto Jones, Ieuan Jones, Trystan Humphreys, Cyngorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Einion Edwards, Ffuon Williams, Maria Roberts.

Datgan diddordeb – Datganwyd diddordeb gan John D Jones, Prys Ellis, Trystan Humphreys yng nghofnod 2 [d] ac Ieuan Jones yng nghofnod 2 [a]

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 28ain Dachwedd 2018.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.2] Grŵp Cynefin/ Anghenion Tai Cymuned Cerrig-y-Drudion

Nodwyd nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn oddiwrth Mr Arfon Hughes o Grwp Cynefin.

[1.3] Fferm ydd Gwynt

[a] Dywedodd y clerc iddo dderbyn gair oddiwrth Clean Earth yn cadarnhau eu bod yn bwriadu gwneud cyfraniad o £2,500.00 i'r Cyngor Cymuned tuag at achosion lleol

[b] Cadwyn Clwyd – Deallwyd eu bod yn bwriadu cysylltu gyda'r Cyngor

[c] Innogy Ltd. Nodwyd nad oedd gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn.

[1.4] Pont Pentrellyncymer

Deallwyd yn siomedig bod y gwaith i atgyweirio'r bont heb ei wneud a bod y Cyngor Sir wedi datgan bod y gwaith ar y rhestr i gael sylw.

[1.5] Arwydd Cyflymder Stryd King

Dywedodd y clerc nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth Cyfoeth Naturiol Cymru i ymholiad am gyfraniad ariannol tuag at arwydd cyflymder gyferbyn a'r ysgol

[1.6] To'r Shelter

Deallwyd gan Trystan Humphreys nad oedd angen sylw i'r to ar hyn o bryd.

[1.7] Peiriant Twll yn y Wal

Nodwyd ateb gan Marc Jones ei fod yn parhau i ddisgwyl sylwadau "Cardtronics" ynglyn a bod rhaid talu am ddefnyddio'r peiriant twll yn y wal ger Gwesty'r Saracens.

[1.8] Cynllun Chwarae'r Haf

Penderfynwyd i drefnu 4 sesiwn peldroed [cost £100.00] yn ychwanegol i'r cynllun chwarae.

[1.9] Tyllau yn y Ffordd i gyfeiriad Ty'n Rhyd o Groesffordd yr A5

Nodwyd fod trefniadau i lenwi'r tyllau.

Y brif Agenda

[2] Ceisiadau Cynllunio

- [a] Codi sied amaethyddol, Hendre Ty Ucha Ffrithoedd
 - [b] Addasiadau ac estyniad i'r gegin i ddarparu ystafelloedd ychwanegol, Refail Cerrig-y-Drudion.
 - [c] Adeilad annibynol ar gyfer gweithdy gwnio, 1 Alwen Terrace, Cerrig-y-Drudion.
 - [d] Estyniad i uned amaethyddol bresennol i storio peiriannau. Rhos Mawr, Cerrig-y-Drudion
- Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r pedwar cais uchod.

[2.1] Precept

Gan nodi'r sefyllfa ariannol, penderfynwyd i osod precept o £5,000.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20

[2.2] Llyfrgelloedd Cymunedol

Cyfeiriodd y clerch at lythyr oddiwrth Sian Williams o Gyngor BS Conwy yn ceisio cyfraniad o £2,800 er mwyn sicrhau nad oedd angen cwtogi oriau yn y llyfrgell leol. Penderfynwyd gan fod y Cyngor Cymuned eisioes wedi cytuno i gostau cynhaliaeth yr adeilad a hefyd costau gwres, trydan a.y.b. nad oedd yn bosib gwneud cyfraniad ychwanegol.

[2.3] Adran yr Urdd

Cyfeiriodd y clerch at lythyr oddiwrth Mrs Lowri Jones yn ceisio cyfraniad tuag at ddillad peldroed i aelodau'r urdd. Penderfynwyd i anfon y cais ymlaen i'r Cwmmni'r Dramau iddynt ei ystyried.

[2.4] Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn ;

- [a] Theatr Bara Caws £25.00
- [b] Ymddiriedolaeth Gofalwyr £50.00

[2.5] Nodwyd y wybodaeth canlynol ;

- [a] Is ddeddfau Draenio Tir
- [b] Cynllun Sioeau Gwledig Hiraethog
- [c] Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri

Cadeirydd _____